# ATAL CWYMPO

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Nid yw ond yn cymryd un camgymeriad bach neu ddiffyg canolbwyntio i arwain at farwolaeth neu anaf difrifol wrth weithio ar uchder heb offer diogelwch. Gall hyd yn oed mân anafiadau olygu amser i ffwrdd o'r gwaith a chael effaith ddilynol ar gynhyrchiant neu olygu bod angen gwneud trefniadau gwaith eraill.

**Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae pum person wedi cael eu lladd ar ffermydd yng Nghymru am eu bod wedi cwympo o uchder.**

## Rhai enghreifftiau o sut gellir osgoi cwympo:

- Ceisiwch osgoi gweithio ar uchder. Meddyliwch am ffyrdd o ddylunio neu i greu systemau diogel i osgoi gorfod gweithio ar uchder. Ar gyfer tasgau y mae'n rhaid gweithio ar uchder ar eu cyfer, ystyriwch ddulliau eraill o weithio – defnyddiwch lwyfan gwaith yn hytrach nag ysgol.
- Gallwch lithro, baglu a chwympo unrhyw le ar fferm. Wrth ystyried eich fferm, meddyliwch sut gall y tywydd, symudiadau'r peiriannau, tasgau dyddiol ac ymwelwyr effeithio ar y sefyllfa a pheri i symud o gwmpas fod yn fwy peryglus – dylid cynllunio a gweithredu'n unol â hynny.
- Defnyddio craen fasged – does dim angen dibynnu ar rywun arall i reoli'r peiriant ac felly does dim peryg o gamddealltwriaeth rhwng y person sy'n rheoli'r craen a'r person sy'n cael ei godi.
- Wrth ddefnyddio ysgol, gwnewch yn siŵr ei bod wedi'i gosod ar lawr gwastad a chadarn. Gwnewch yn siŵr nad yw'n pwyso yn erbyn wyneb brau. Dylai top yr ysgol ymestyn tros ei hymyl gan un fetr i'w gwneud yn fwy diogel i ddringo'r ysgol a mynd oddi arni os ydych yn ei defnyddio i ddringo toeon.

**Rhaid** dweud wrth ymwelwyr am unrhyw beryglon posibl – mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i sicrhau eu bod yn ddiogel tra'u bod ar y fferm.

**Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch gweithwyr wedi cael hyfforddiant digonol ac yn gymwys i ddefnyddio peiriannau. Cysylltwch â Lantra i gael cyngor ar hyfforddiant ar 01982 552646.**

**PEIDIWCH BYTH A DEFNYDDIO OFFER DROS DRO E.E. BWCED JCB NEU BALEDAU**

Am ragor o wybodaeth am iechyd a diogelwch ar y fferm, ewch i: **www.hse.gov.uk/agriculture**

© Hawlfraint y Goron 2012 WG 15859